# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

**RHAN 8**

CYFFREDINOL

**87 Dehongli**

Yn y Ddeddf hon—

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad a gynhwysir yn unrhyw un o'r canlynol (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir)—

(a) Deddf Seneddol;

(b) Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p. 30) (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

**88 Dod i rym**

(1) Mae'r Rhan hon yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1 (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol);

(b) Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd);

(c) Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn);

(d) adran 82 (diddymu gofynion i gyhoeddi);

(e) adran 84 (apelau yn erbyn ardollau draenio arbennig);

(f) adran 85 (pŵer mynediad);

(g) adran 86 (is-ddeddfau).

(3) Daw’r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol—

(a) Rhan 3 (codi taliadau am fagiau siopa);

(b) Rhan 4 (casglu a gwaredu gwastraff);

(c) Rhan 6 (trwyddedu morol);

(d) adran 81 (pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol);

(e) adran 83 (prisio tir anamaethyddol).

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) pennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud y ddarpariaeth drosiannol neu’r ddarpariaeth arbed honno mewn cysylltiad â dod i rym ddarpariaeth o fewn y Ddeddf hon y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

## 89 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.